

Cyflwynwyd y papur hwn Mari Beynon Owen yng Nghynhadledd Flynyddol AMC/WAW 2017

(Perthyn yr hawlfraint i'r awdur. Cedwir pob hawl. Ni ellir ailargraffu nac atgynhyrchu na Defnyddio unrhyw ran o'r papur hwn trwy unrhyw ddull electronig, mecanyddol neu arall, na wyddys ar hyn o bryd neu na ddyfeisiwyd eto, gan gynnwys llungopio Na recordio, neu mewn unrhyw storfa wybodaeth na system adalw heb ganiatâd ysgrifenedig yr awdur)

GWENNY GRIFFITHS, 1867 – 1953

'PEINTIWR PORTREADAU - O ABERTAWE I'R RIVIERA'

Nid yw Gwenny Griffiths yn artist a gafodd lawer o sylw, ac mae wedi golygu tipyn o waith ditectifimi olrhain ei hanes a'i gwaith. Dim ond pump o'i lluniau sydd mewn casgliadau cyhoeddus ym Mhrydain, er fy mod wedi cofnodi oddeutu 30 llun mewn catalogau ar gyfer amrywiol arddangosfeydd yn Abertawe, gweddill Prydain a Pharis:

Ar 22^{ain} o Ragfyr 1953, yn 86 mlwydd oed, bu farw Miss Rosa Gwenny Griffiths, Peintiwr Portreadau, yn Cannes, De Ffrainc.

Ei chyfeiriad yno oedd Villa Canteraine, Avenue Notre Dame des Pins, sef adeilad o ddiddordeb pensaernïol, a godwyd gan yr artist ac entrepreneur Georges Capron yn 1930, ynghyd a'i oriel gelf, Galerie Alexandre III, gerllaw.

Roedd Villa Canteraine yn gartref i Capron ei hunan, artistiaid eraill a'u stiwdios celf a Gwenny felly'n byw reit ynghanol berw artistig y cyfnod, gydag artistiaid enwog megis Picabia a Picasso yn mynd a dod i'r oriel.

Yn ei theyrnged iddi yn The Evening Post mae ei ffrind Annie L Matthews o Bencwar, Treboeth, yn disgrifio ei fflat:

“Her dining room in Cannes was furnished as an old Welsh kitchen with furniture sent out from Wales. Willow pattern and lustre jugs adorned the dresser. She often played Welsh airs on her grand piano. Her Welsh costume and top hat were expected, after her death, to go to the National Museum of Wales”

Ers marw ei thad, Dr T Dryslwyn Griffiths yn 1914, roedd ei mham, Frances, a'i chwaer Mabel wedi mynd i fyw i'r Riviera.

Roedd ei thad yn lawfeddyg o fri, yn gyn-lywydd y British Medical Association, ac yn gyfarwyddwr nifer o gwmnïau yn Abertawe gyda'r canlyniad iddo adael ystâd i'w wraig, a'i dair merch a fyddai'n cyfateb i dros 2 filiwn o bunnoedd heddiw. Yn ddiddorol, adawodd o run geiniog i'w fab William Layard Griffiths, oedd hefyd yn feddyg yn Abertawe.

Roedd Gwenny erbyn hyn yn 47 mlwydd oed, yn artist gweithgar a oedd yn arddangos ei gwaith mewn arddangosfeydd ar draws Ewrop, felly tydio ddim yn ymddangos ei bod wedi llaesu dwylo a rhoi'r gorau i chwilio am gomisiynau ar dderbyn ei hetifeddiaeth.

Roedd ganddi stiwdio, oedd hefyd yn gartref iddi, yn Sydney Mews, ar y Fulham Road yn Chelsea, ardal a oedd yn enwog fel gwladfa artistig a bohemaidd. Gyda chynnydd yn y nifer o artistiaid proffesiynol, roedd galw am stiwdios ac felly byddai grŵp yn ymgasglu a rhentu cyfres o stiwdios gyda'i gilydd.

Yma i rif 1A, ac wedyn rhif 5, y daeth Gwenny. Yn gymydog iddi oedd yr arlunydd enwog John Singer Sargent; a hefyd un o'i chyfoedion yn Ysgol Gelf y Slade, yr arlunydd Annie Louisa Swynnerton.

Roedd Annie yn un o sylfaenwyr y Manchester Society of Women Painters ac yn weithgar iawn ym mudiad y suffragettes.

Yn 1914, ymosododd y suffragette Mary Wood (Mary Aldham), ar bortread John Singer Sargent o Henry James yn Arddangosfa Haf yr Academi. Roedd y llun a gomisiynwyd di ddathlu pen-blwydd yr awdur cydnabyddedig yn saithdeg gan un o hynafgwyr yr elite celf, yn cynrychioli gafael haearnidd dynion ar y sefydliadau celf.

Yn ôl un o'r artistiaid sydd yn byw ac yn gweithio yn Sydney Mews nawr, ac sydd wedi ymddiddori yn hanes yr adeilad, roedd gan y suffragettes argraffdy cudd yn rhif 5, sef stiwdio Gwenny, felly mae'n bur debyg fod Gwenny hefyd wedi chwarae rhan allweddol yn yr ymgyrch. Tybed a ddaru John Singer Sargent erioed sylweddoli bod ei gymdogion ar flaen y gad dros hawliau merched? Brwydr lwyddiannus i Swynnerton gan, wyth mlynedd yn ddiweddarach, f'ei hetholwyd yn Gymrodor o'r Academi Frenhinol, y ferch gyntaf ers 1768.

Yn y cyfnod hwn, roedd Gwenny ei hunan yn arddangos yn y Royal Academy; hefyd yn arddangosfa flynyddol y Society of Women Artists; y Royal Society of Artists,

Birmingham; Walker Art Gallery, Lerpwl; yn Glasgow a'r Royal Cambrian Academy. Felly roedd hi'n gweithio'n galed yn cynhyrchu lluniau a'i gwerthu.

Yn 1906 byddai llun ganddi yn werth £16 - sef rhyw £1,500 ym mhres heddiw.

Roedd Gwenny wedi cychwyn ar ei hyfforddiant artistig yn y Swansea School of Art and Design, ysgol gelf breifat a sefydlwyd yn 1869, yn yr adeilad ar Alexandra Rd gyferbyn ac Oriel Glynn Vivian.

Yn bedair ar bymtheg mlwydd oed, f'ei chofrestrwyd yn fyfyrwr yn Ysgol Celf Gain y Slade, adran o Goleg Brifysgol Llundain.

O'r cychwyn ers sefydlu'r Slade yn 1868, roedd merched wedi eu derbyn i'r coleg, ac roedd ganddynt hawl i fynychu pob dosbarth, gan gynnwys Byw Lluniadu, er byddai'r modelau wedi eu gorchuddio'n rhannol gan ddarn o ddefnydd. Roedd yna ysgoloriaethau ar gael i fyfyrwyr o dan bedwar ar bymtheg oed, gan mai prif fwriad sefydlydd y coleg, Felix Slade, oedd rhoi cyfle i fyfyrwyr iau astudio paentio, dylunio a cherflunio fel pwnc prifysgol, yn enwedig oherwydd bod yr Academi Frenhinol ond yn derbyn artistiaid mwy profiadol.

Roedd rhaid sefyll arholiad i gael mynediad neu dangos gwybodaeth dda o'r laith Saesneg; Hanes Lloegr; Hanes Groeg a Rhufain; Daearyddiaeth Fodern a Hynafol; Arithmetig, laith Dramor neu un llyfr o Euclid.

Byddai'r rhan fwyaf o ddisgyblion ysgolion cyhoeddus wedi hen adael cyn iddynt allu meistrolï'r rhestr hirfaith yma, felly go debyg mai myfyrwyr a oedd wedi derbyn addysg breifat a fyddai'n cael mynediad. Ac wrth gwrs roedd ffioedd i'w talu. Ar gyfer ei blwyddyn gyntaf roedd y ffi yn £19. 19swllt, sef tua £2000; os oeddech ond am fynychu am dymor, byddai hynny'n costio £7.7swllt, bron I £800.

Ac yn ychwanegol, ond ar gymeradwyaeth y Lady Superintendent, ac ar gyflwyno geirda y derbyniwyd merched. Wrth reswm gan fod tad Gwenny yn gyn-fyfyrwr o UCL, ac yn feddyg mor amlwg, fyddai hyn ddim wedi achosi unrhyw broblem.

Rheswm arall fod y Slade mor boblogaidd gyda merched oedd bod yr ardal o gwmpas Gower St yn cael ei ystyried yn saff iawn gan ei fod yn agos at y prif orsafoedd trenau a doedd dim angen teithio ar draws Llundain. Roedd y merched unai yn aros mewn neuadd breswyl, gyda pherthnasau neu, mewn 'digs'. Yn 1889,

cyfeiriad Gwenny yw 'Dryslwyn', rhif 98 Gower St, sy'n awgrymu fod T Dryslwyn Griffiths wedi prynu tŷ yn Llundain dros y cyfnod yr oedd ei ferch yn astudio yno.

Roedd Gwenny'n astudio o dan yr Athro Alphonse Legros, arlunydd o Ffrainc a osododd stamp y syllabus Ffrengig ar y cwrs, ac roedd disgwyl i'r myfyrwyr fynychu atelier [gweithdy peintiwr] ym Mharis fel rhan o'r cwrs. Roedd yr ateliers yn enwog am eu rhialtwch ac felly roedd angen dwyn perswâd ar y rhieni y byddai'r merched yn saff rhag unrhyw ddrygioni.

Fe aeth Gwenny i'r Academie Julian ym Mharis -a gallwch chi ond dychmygu'r antur, yr hwyl a sbri o fyw ym Mharis. Roedd y Julian yn ysgol gelf breifat ryddfrydol gyda myfyrwyr o dros y byd i gyd yn heidio yno i ddysgu am y technegau diweddaraf; yn wahanol i'r Ecole des Beaux Arts, roedd yn derbyn merched ac yn eu caniatáu i dynnu llun dynion yn noethlymun. Roedd hefyd yn ffordd i gael eich traed dan y bwrdd yn y Salons ym Mharis. Ac yn sicr fe wnaeth Gwenny'r mwyaf o'r cyfle hwn gan iddi gael i sawl un o'i lluniau gael eu derbyn yno dros gyfnod o ugain mlynedd.

Fe ddaeth a rhai o'r lluniau yna nol i Abertawe ar gyfer arddangosfa unigol yn Oriel Glynn Vivian yn 1922. Mae'r arddangosfa'n cyfuno tirluniau o Dde Ffrainc, portreadau o bobl amlwg yn Abertawe; cyfeillion ac aelodau o'i theulu.

Mae ffotograff yn adroddiad yr Evening Post am ei harddangosfa o Gwenny o flaen ei phortread o Mrs D M Glasbrook. A dyma ddirgelwch mawr - lle mae'r llun yma erbyn hyn? Roedd David Mansel Glasbrook, ynghyd a'i frodyr, wedi etifeddu, cwmni Glasbrook,, a oedd bia nifer o lofaeodd yn yr ardal. Roedd Mrs D M Glasbrook yn bresennol yn yr arddangosfa ond ni welais unrhyw sôn am y llun hwn ers hynny.

Mae'r portread o Roger Beck, prif gymwynaswr Ysbyty Singleton nawr i'w weld yn Ystafell Fwrdd yr Ysbyty; ac ei llun o Mrs Olivia Howell, sefydlydd Cartref Plant Amddifad, Abertawe, sydd yng nghasgliad Oriel Glynn Vivian a baentiwyd tua 1900 yw efallai un o'i lluniau mwyaf adnabyddus.

Mae'n amlwg fod cysylltiadau ei thad yn y byd meddygol a masnach yn Abertawe a thu hwnt, yn ddefnyddiol iawn o ran ennill comisiynau ariannol – fe baentiodd bortread o Robert F C Leith, meddyg a llywydd Prifysgol Birmingham; a Major J E General Dickie.

(Mae'r portreadau hyn i'w gweld ar wefan ar www.artuk.org)

Roedd hi hefyd yn darlunio aelodau o'r teulu – fe ddes ar drawslluniau o'i nai, Henry James a'i nhith Olive Mary, sef plant ei chwaer, Olive Mary, abriododd Henry James Bath, perchennog un o brif gwmnïau diwydiant copr Abertawe, mewn ocsiwn yn ddiweddar.

Erbyn 1935, mae'r rhestr o'r portreadau a gyfrannodd i arddangosfa yn y Glynn Vivian gan gyn-fyfrwyr Ysgol Gelf Abertawe, yn cynnwys enwau llawer mwy egsotig, megis Duchessa Litta, Comte Morando-Bolognini, s'yn awgrymu cylch cymdeithasol dra gwahanol ar y Riviera.

Yn 1938 bu mam Gwenny farw yn Nice; ac yn ystod yr Ail Ryfel Byd daeth Gwenny nol i fyw yn y Fenni at deulu ei mhâm.

Roedd ei chwaer Mabel erbyn hyn wedi priodi Mr Brownlow Fforde ac yn dal i fyw ar y Riviera. Mae'n rhaid bod y teulu yn eitha adnabyddus oherwydd rhywbryd tua 1940 - 42, bu Mabel yn destun eitem newyddion rhyngwladol oherwydd i ladron dorri mewn i'w villa, oherwydd iddynt gredu fod ganddi stôr o aur yno. Fe glymwyd Mabel i fyny, a'i harteithio trwy losgi ei thraed, ond ar ôl chwilio a chwilio, daeth y lladron i'r casgliad nad oedd yr aur yno wedi'r cyfan - a diolch byth fe arbedwyd Mabel! Roedd yr aur yn saff yn bell i ffwrdd mewn safe yn Llundain.

Ac yn ôl- nodyn i'r hanesyn cyffrous hwn, mae elusen o'r enw The Griffiths - Brownlow Fforde Foundation, wedi ei leoli yn Dryslwyn House, sef cartref cyntaf y teulu yn De La Beche St, Abertawe, a lle ganed Gwenny. Efallai mai rhywfaint o'r aur a arbedwyd oedd ffynhonnell yr elusen wreiddiol?

A lle tybed mae'r hen ddreser honno yr oedd Gwenny mor falch i'w harddangos yn ei apartment yn y Villa Canteraine yn Cannes?

Cadwodd Gwenny gysylltiad agos gyda'i thref enedigol Abertawe; gyda Oriel Glyn Vivian yn arbennig, ac roedd yn hynod falch o'i Chymreictod. Roedd gwreiddiau'r teulu yn ddwfn yng nghefn gwlad Sir Gar. Ei thad o Ddryslwyn a chyfnither iddo, Elizabeth Beynon, sef fy hen famgu o fferm Lan ger Gwyddrug, Sir Gar.

Felly dyma gipolwg ar ferch o Gymru a fu hyd ei hoes ynghanol berw artistig; merch yn torri'i chwys ei hunan, ond sydd rhywsut wedi diflannu o hanes celf yng Nghymru.

Fe hoffwn gydnabod cefnogaeth Ellie Dawkins o Oriol Glynn Vivan, sydd, gyda Ronald Austin o Abertawe, wedi rhannu eu gwaith ymchwil ar Gwenny gyda mi.

((Petai gan unrhyw un wybodaeth bellach am Gwenny, ei theulu, neu yn wir yn gwybod am leoliad rhai o'i lluniau, byddwn yn hynod falch os allech chi gysylltu â mi : mari.beynon.owen@ntlworld.com)

MARI BEYNON OWEN